C G/B C Dm C
Wele, cawsom y Meseia,
C G/B C G/B C
Cyfaill gwerthfawroca' 'rioed;
C
Darfu i Moses a'r proffwydi
F C Dm C G/B Am G
Ddweud amdano cyn ei ddod:
C Dm Am F Am G
Iesu yw, gwir Fab Duw,
C G/B C G/B C
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

C G/B C Dm C
Dyma'r hen addewid hyfryd
C G/B C G/B C
'Sîgodd siôl y sarff yn friw;
C
Caed tragwyddol fuddugoliaeth
F C Dm C G/B Am G
Ar farwolaeth, trwy Fab Duw:
C Dm Am F Am G
Trwy fy oes, ym mhob loes,
C G/B C G/B C
F'enaid, cân am waed y groes.

C G/B C Dm C
Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
C G/B C G/B C
Aeth i'r lladdfa yn ein lle,
C
Swm ein dyled fawr a dalodd
F C Dm C G/B Am G
Ac fe groesodd filiau'r ne';
C Dm Am F Am G
Trwy ei waed, inni caed
C G/B C G/B C
Bythol heddwch a rhyddhad.

C G/B C Dm C
Ca'dd cyfiawnder ei fodloni,
C G/B C G/B C
Ca'dd y gyfraith ei chwblhau;
C
Duw a ninnau, fu'n elynol,
F C Dm C G/B Am G
Yn heddychol gwnaed y ddau:
C Dm Am F Am G
Fe wnaeth ben; 'nawr mae'r llen
C G/B C G/B C
Wedi rhwygo o'r ddae'r i'r nen.

C G/B C Dm C
Dyma gyfaill haedda 'i garu,
C G/B C G/B C
A'i glodfori'n fwy nag un:
C
Prynu'n bywyd, talu'n dyled,
F C Dm C G/B Am G
A'n glanhau â'i waed ei hun:
C Dm Am F Am G
Frodyr, dewch, llawenhewch,
C G/B C G/B C
Diolchwch iddo, byth na thewch!

C G/B C Dm C
Dyma'r Cyfaill mwyn a'n cofiodd
C G/B C G/B C
Ac a'n carodd cyn bod byd;
C
Dyma'r Oen a ddaeth o'r nefoedd,
F C Dm C G/B Am G
Ac a'n prynodd ni mor ddrud:
C Dm Am F Am G
Tra bôm fyw, dyled yw
C G/B C G/B C
Cofio cariad pur Mab Duw.